Saesneg isod/English below

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 28ain o Orffennaf 2025 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Willam R P Jones, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams ynghyd a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts.
Roedd ymddiheuriad gan Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a danfonwyd ein cofion cynhesaf ati yn dilyn ei thriniaeth. Byddai'r Clerc yn danfon gair ati.
Nid oedd unrhyw **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Mehefin** ar gynnig Cyng. Rhys Williams a'i eilio gan Cyng Eurgain Haf Davies

4. **Materion yn codi.**

   a) **Gardd Goffa** – adroddwyd fod yr agoriad swyddogol ar yr 20fed o Fehefin wedi bod yn llwyddiant. Roedd balchder fod yr Ardd Goffa yn edrych yn daclus. Diolchwyd i Cyng Alwyn Roberrts am sicrhau fod carreg yn y wal yn ddiogel yn dilyn ymholiad gan Cyng Gwynedd. Roedd llun da iawn o'r awyr wedi ei dynnu gan Mr W Williams Wynne, a byddai'r Clerc yn danfon gair o ddiolch iddo. Addawodd Cyng Eurgain Haf ei fframio,(gyda'r Cyngor Cymuned yn talu unrhyw gostau) a byddai'r cael ei osod yn ystafell fach yn Neuadd fel cofnod o'r digwyddiad.

   Roedd adroddiad ynghyd a lluniau wedi bod yn y papur bro Dail Dysynni, a diolchwyd i Eurgain Haf eto am ei ysgrifennu.

b) **Cronfa 'Gwynedd Ni'** - adroddwyd y diweddaraf am y cais yma, oedd a dyddiad cau o'r 31ain Gorffennaf. Roedd bellach gyfle i ymestyn y cais £2500 ychwanegol (i'r £5000 gwreiddiol) os oedd dymuniad gan y Cyngor. Diolchwyd yn fawr iawn i Cyng Eurgain Haf am ein gwaith. Penderfynwyd canolbwyntio ar y toiledau a'r gwelliant/taclusrwydd y safle beics ger Cefn Coch.

c) **Awgrym i gael tudalen facebook i'r pentref/Cyngor** – yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y gellir defnyddio safle y Neuadd ar gyfer y Cyngor Cymuned os oedd angen, a byddai'r Cyng Eurgain Haf yn trafod hyn yn y cyfafod nesaf

d) **Ystyried trefniadau i gael Cyngorydd o'r newydd yn dilyn ymddiswyddiad Cyng Catrin Rutherford –** cyhoeddwyd mai dyma gyfarfod olaf Cyng Catrin Rutherford, a diolchwyd yn ddiffuant iawn iddi am ei chyfraniad dros yr holl flynyddoedd. Gofynwyd i'r Clerc gychwyn ar y trefniadau i gael olynydd, a byddai yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd yn y lle cyntaf.

5. **Materion Cynllunio**
Nid oedd unrhyw faterion cynllunio gerbron.

6. **Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2024-25** - Roedd y cyfan wedi ei ddanfon ymlaen i'r Archwilydd Allanol ers 27ain Mehefin.

b) **Anfonebau i'w talu** – nid oedd unrhyw anfonebau i law.

c) **Ystyried unrhyw geisiadau am arian**

- **Ambiwlans Awyr Cymru** – penderfynwyd peidio cyfrannu, a gwelwyd y dylid ysgrifennu atynt yn nodi anfodlonrwydd am gau safleodd y Trallwm a Chaernarfon i weld beth fyddai yr ymateb.

- **Cerebral Palsy Cymru** – penderfynwyd peidio cyfrannu.

**7. Gohebiaeth.**

a) Atgoffwyd pawb o'r sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru hyd at fis Medi, a byddai y Clerc yn trefnu fel bo'r angen.

b) Ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda ynglyn â dyfodol rhai gwasanaethau yn Bronglais – nodwyd yr ohebiaeth, a byddai'r Clerc yn ymateb yn mynegi siom ar ran y Cyngor am yr argymhellion i is-raddio yr Uned Strôc.

8**. Unrhyw fater arall.**

- Roedd gohebiaeth gan British Gas wedi ei ddanfon eto fyth i Ty'r Ysgol, Llanegryn, er fod hyn wedi ei ddatrys rai misoedd yn ol. Byddai'r Clerc yn ymdrin a hyn.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 29ain Medi 2025 , 7.30y.h.**

LLANEGRYN COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Council meeting held on Monday 28th July 2025 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.

Present; Cllr. Alwyn Roberts, Willam R P Jones, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams together with Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Alwyn Roberts.

There was an apology from Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and our warmest wishes were sent to her following her treatment. The Clerk would send a word to her.

There were no declarations of interest about issues on the agenda.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 11th June were confirmed on the proposal of Cllr. Rhys Williams and seconded by Cllr Eurgain Haf Davies

4. Matters arise.

a) Memorial Garden - it was reported that the official opening on the 20th of June had been a success. There was pride that the Memorial Garden looked tidy. Cllr Alwyn Roberts was thanked for ensuring that a stone in the wall was safe following an inquiry from Cllr Gwynedd. A very good picture by drone had been taken by Mr W Williams Wynne, and the Clerk would send a word of thanks to him. Cllr Eurgain Haf promised to frame it, (with the Community Council paying any costs) and it would be placed in a small room in Neuadd as a record of the event.

A report together with pictures had been in the Dail Dysynni local paper, and Eurgain Haf was thanked again for writing it.

b) The 'Gwynedd Ni' Fund - the latest was reported on this application, which had a closing date of 31st July. There was now an opportunity to extend the application by an additional £2500 (to the original £5000) if the Council wished. We thanked Cllr Eurgain Haf very much for our work. It was decided to focus on the toilets and the improvement/tidy of the bike site near Cefn Coch.

c) Suggestion to have a facebook page for the village/Council - following discussion, it was decided that the Hall site could be used for the Community Council if necessary, and Cllr Eurgain Haf would discuss this at the next meeting

d) Consider arrangements to have a new Councillor following the resignation of Cllr Catrin Rutherford - it was announced that this was Cllr Catrin Rutherford's last meeting, and she was thanked very sincerely for her contribution over all the years. The Clerk was asked to start the arrangements to get a successor, and he would contact Gwynedd Council in the first place.

5. Planning Matters

There were no planning issues before.

6. Finance Matters.

a) Accounts 2024-25 - All had been forwarded to the External Auditor since 27th June.

b) Invoices to be paid - there were no invoices to hand.

c) Consider any requests for money

• Wales Air Ambulance - it was decided not to contribute, and it was seen that they should be written to indicating dissatisfaction with the closure of the Welshpool and Caernarfon sites to see what the response would be.

• Cerebral Palsy Wales - it was decided not to contribute.

7. Correspondence.

a) Everyone was reminded of the Un Llais Cymru training sessions until September, and the Clerk would organize as needed.

b) Hywel Dda Health Board consultation regarding the future of certain services in Bronglais - the correspondence was noted, and the Clerk would respond expressing disappointment on behalf of the Council at the recommendations to downgrade the Stroke Unit.

8. Any other matter.

• Correspondence from British Gas had yet again been delivered to Ty'r Ysgol, Llanegryn, although this had been resolved a few months ago. The Clerk would deal with this.

DATE OF NEXT MEETING;  LLANEGRYN HALL MONDAY 29th September 2025, 7.30pm.